# GALARNAD,

NEU

## GAN O GOFFADWRIAETH

AM

## WRAIG DDUWIOL,

(Eliza Evans)

O

*BETHANIA, YN ABERTEIFI.*

---

A GYFANSODDWYD

GAN BENJAMIN DAVIES,

*Penallt-Pont-Sely.*

---

*CAERFYRDDIN:*

*Argraphwyd gan Jonathan Harris, Porth-Tywyll*--1812.

[PRIS DWY GEINIOG]

WG35.5.45

X2053987123 LN 1496

1 AR y nawfed dydd o Fedi
  Clywais newydd chwerw blin,
Berodd i mi golli dagrau
  Wylo llawer wrthyf f' hun;
Clywed wnes am un o'r teulu
  Aeth trwy angeu maes o'r byd,
Hwn a dynodd codwm Eden
  Ar ddynoliaeth oll i gyd.

2 Deddf sydd wedi gosod unwaith
  I holl Israel Duw i gyd,
Fyned trwy yr hen Iorddonen
  I wlad Canaan dawel glud;
Ond dau ddihangodd o'r dyfnderoedd
  I deyrnasu uwch y rhôd,
Enoc ac Elias ffyddlon
  Na ddarfu'nt gwrdd âg angeu erioed.

3 Deuwch holl drigolion daear
  I ryfeddu hyn i gyd,
Na rydd angeu un arbediad
  I wrthddrychau'r pwrcas drud;
Mwy na'r annuwiolion pennaf
  Sydd gydâ'r diafol ar y ma's,
*Treio* rhwydo a gorchfygu
  Temtio etifeddion gras.

4 Clywed geiriau 'rwyf yn aml
  Am y dychryn Frenin hwn,
Fel pe b'ai e'n dod o wagle,
  A'i artrefle ef ni's gwn;
Ond mi dd'wedaf wrthych eiriau
  Weddai gael rhyw syndod mawr,
I fod angeu yn mhob pabell
  Sy'n preswylio ar y llawr.

5 Caru angeu 'rym ni beunydd*
A'i gofleidio ddydd a nos,
Fel tegan gwerthfawr yn ein mynwes
Hyd nes rhydd in' farwol lo's;
Dyma'r pryd y cawn ni weled
I fod angeu'n chwerw iawn,
Er ein bod ni oll wrth natur
Yn ei garu hyd brydnawn.

6 Hen gongcwerwr ydyw angeu
Nid un newydd dd'od i'r byd,
'Safodd neb o'r cewri cryfion,
Fe orchfygodd 'rheiny i gyd;
Trown ein golwg at Manasse
Samson hynod yn ei ddydd,
Llawer hefyd gall'swn enwi
Arnynt *cariodd* angeu'r dydd.

7 Pan bwy'n meddwl yn ddifrifol
Am weithredoedd Brenin braw,
Peri mae i mi arswydo
Wrth feddwl myned tan ei law;
Dyma'r llaw fydd yn gweithredu
Mewn creulondeb mawr rhyw bryd,
Pan y byddo'n datod clymmau
Rhwng fy nghorph a'm henaid drud.

8 'Nawr mi drôf fy ngolwg bellach
At y gwrthddrych berodd im'
Dreiddio'r meddwl i fyfyrio
Ar weithredoedd angeu llym;
ELIZA EVANS oedd ei henw
Yn *Llwyn-grawys* bu hi'n byw,
Yn *Aberteifi* 'roedd hi'n aelod,
Yno'n arddel Iesu gwiw.

* Sef pechod, yr hwn yw colyn angeu.

9 Hi ddechreuodd yn y boreu
Blygu i ordinhadau'r ty,
Yn yr anial bu hi'n teithio
Hir flynyddau gydâ'r llu;
Yfed dyfroedd mara lawer,
Cael dail surion gydâ'r Oen,
'Nawr mae'n gwledda ar ddanteithion
Mewn trigfannau heb ddim poen.

10 Un ar hugain oedd ei hoedran
Pan y darfu daro ma's,
I ryfela yn y frwydr
O ochr Duw maddeuol ras;
Gwisgo *lifreu* Brenin Sion
A'i harfau'n gyson wrth ei chlin,
Gan annog eraill yn y fyddin
Fod yn ffyddlon bob yr un.

11 Un oedd hi a fu mewn rhyfel
Tra fu'n teithio'r anial fyd,
Bu flynyddau yn mhlith crochanau,
A'i gwisg er hyn oedd lân o hyd;
Milwrio 'roedd a'i harfau'n loywion,
Nes daeth trwy'r afon i'r Ganaan râd,
Er cymmaint ydoedd ei gelynion
Hi gâs y gongcwest trwy rym y gwa'd.

12 Hefyd byw mewn galarnadau
Pan oedd yma dan y groes,
Llawenhau ar un amserau,
Wrth gofio am ei angeu loes;
Yr oedd hi'n cyfrif yr holl groesau
Fel rhyw fraint ardderchog iawn,
Er mwyn Iesu fu'n dyoeddef
Ar Golgotha un prydnawn.

13 'Nawr 'rwy'n meddwl yn ddifrifol,
Am fawr ragoroldeb hon,
Ni ollyngaf o honi yn angof
Tra bwy'n teithio daear gron;
'Roedd hi'n amlwg i ni weled
Mae un o'r prenau byw oedd hi,
Ffrwythau ydoedd arni'n tyfu,
I debygoli'r Iesu cu.

14 ELIZA EVANS, mamaeth dduwiol
Ydoedd hon yn nheulu'r Tad,
Ei llef hi ydoedd yn wastadol,
Am godi delw sanctaiddhad;
Mynych iawn y d'wedai'n sobr
Am sancteiddrwydd yn y ty,
Byw yn dduwiol a chrefyddol,
Pan oedd yma gydâ ni.

15 Dywedai'n hynod wrth bregethwyr,
Am gofio'u tirion Athro mwyn,
Porthi'r praidd, bugeilio'r defaid,
Curo'r bleiddiaid, a chadw'r wyn;
A dal i maes y wisg ddiwniad
Gas ei gorphen un prydnawn,
Gan y Meichiau fu'n dyodde'
Wrth dalu'r ammod yno'n llawn.

16 O! mor felus 'roedd hi'n siarad,
Am weithredoedd dwyfol râs,
Pan yr oedd hi dan y loeson,
Dwylo oerion angeu glâs;
Yno d'wedai yn ardderchog
Wrth ei *ffryndiau* oedd ger bron,
Bod hi wedi 'nabod Ceidwad
I ddal ei phen hi uwch y don.

17 Oed ein Prynwr pan orphenodd
Ei thaith ar wyneb daear lâs,
Ydoedd mil ac wyth cant hefyd
Pan yr aeth o'r corph i ma's,
A deg hefyd o flynyddau
I wneud y swm a'r cyfri'n llawn,
Pan y treiddiodd trwy'r ehangder,
I'r wlad i ganu'n beraidd iawn.

18 Tri ugain mlynedd lawn a phedair
Bu hi yn y byd yn byw,
Pedwar deg a thair o hynny
Gwnaeth arddeliad teg o Dduw;
Fel Duw graslawn a thrugarog
Duw maddeugar yn y gwa'd,
Yr hwn sy'n codi myrdd i fynu
Yn yr iechydwriaeth rad.

19 Llawer ganodd yn y dyfnder,
Wrth drafaelu'r dyffryn du,
Rhosydd Moab a dyffryn Baca,
Pan 'roedd yma gydâ ni;
Gwaed 'i Hanwylyd oedd y testyn,
Ei chaniadau hi o hyd,
Am y gwaed y mae hi'n canu
'Nawr o fewn trag'wyddol fyd.

20 Os 'dych am wybod b'le mae'n gorwedd,
O ran ei chorph mewn gwely pridd,
Yn *Ebenezer* mewn lle oeredd
Hyd fore'r adgyfodiad ddydd;
Dyma'r boreu y treigla'r meini
Wrth waith Iesu'n dod i'w hol,
Beddau'n rhoddi i fynu'r meirw,
Heb fedru mwy eu dal nhwy'n ol.

21 Boreu pwysig fydd y boreu
Pan y delo'r Udgorn clir,
I roddi bloedd nes byddo'r meirw
Yn deffroi trwy fôr a thir;
Dyma'r boreu caiff myrddiynau
Ddihuno ar eu newydd wedd,
Byw'n gyffelyb i'w Hanwylyd
Mewn gwlad yr ochr draw i'r bedd.

22 'Nawr mi goda' ngolwg fynu
I'r trigfanau 'rwyt ti'n byw,
Mewn sel dduwiol, gwresog gariad,
Wedi'th wisgo â delw Duw;
Ti fedri ddweud yn awr yn glirach
Am y Drindod mawr yn un,
Draw yn foreu yn yr arfaeth,
Yn trefnu ffordd i achub dyn.

23 Hefyd gwel'd y brynedigaeth
Wedi chwblhau yn rhad,
Gwel'd y Prynwr, gwel'd y Talwr,
'N eistedd ar ddeheulaw'r Tad;
Gwel'd y ddeddf yn anrhydeddus,
Heb allu mwy i ofyn iawn,
Gwel'd cyfiawnder yn dysgleirio,
Wedi cael ei dalu yn llawn.

24 Gwel'd sancteiddrwydd dan ei goron,
Gwirionedd hefyd yn cadw ei le,
A gwel'd myrdd o blant caethiwed,
Yn rhyddion yn Nghaersalem dre';
Byw yn ngoleu'r Haul sy'n para,
Haul a hoeliwyd ar y gro's,
Haul a drodd yr haul naturiol,
Ganol ddydd yn dywyll nos.

25 ELIZA EVANS ti ffarwelaist
A'th gyfeillion dan y nen,
Gan obeithio y ca'et eu gweled
I gyd yr ochr draw i'r llen;
I gyd-foli âg angylion
Cerubiaid a Seraphiaid pur,
Gan waeddi "Iddo ef a'n prynodd,
Wrth ddyoddef hoelion dur."

26 Dywed im' pa olwg hyfryd,
Wyt ti'n wel'd ar Frenin hedd,
Fel oen yn sefyll ar yr orsedd,
Tithau'n syllu ar ei wedd;
A wel' di'r archoll yn ei ystlys,
Hefyd tyllau'r hoelion dur,
Yn ei draed ac yn ei ddwylo,
Fel pan 'roedd ef dan y cur?

27 Er fod 'LIZA EVANS dduwiol,
Wedi 'hedeg tu a'r ne',
Clod i Dduw am godi fynu,
Ei hanwyl ferched yn ei lle;
O oes i oes fe welir perlau,
Coron Iesu'n dod i'r lan,
O ddyfnderoedd yr anialwch,
I Gaersalem yn y man.

28 Mae rhyw dynfa yn fy enaid,
Am ddod adreu at y côr,
O wlad y pair a'r holl gystuddiau,
I gael nofio yn y môr;
Cariad Drindod, môr o syndod,
Fydd i drag'wyddoldeb maith,
Byth fe fydd heb *blymio*'i ddyfnder,
Ei hyd, na'i led, na'i uchder 'chwaith.

DIWEDD.